

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o Gyngor
Cymuned Llansantffraed a
gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos
Fawrth, 1af Mawrth 2022 yn Festri
Capel Siloh, Llanon**

Yn bresennol:

Cadeirydd: y Cyngorydd Gwenno Piette Y Cyngorwyr Dennis Morgan, Andrew Phillips, Aled Roberts a Bryan Tomlins.
Y Cyngorydd Sir Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerc)

**Minutes of a meeting of Llansantffraed
Community Council held at 7:30 pm on
Tuesday, 1st March 2022 at the Siloh
Chapel Vestry, Llanon**

Present:

Chairman: Gwenno Piette
Councillors Dennis Morgan, Andrew Phillips, Aled Roberts and Bryan Tomlins.
County Councillor Dafydd Edwards
Denfer Morgan (Clerk)

764 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cyngorwyr Sheila Davies, Jim Hughes, Lowri Jones, Lodwick Lloyd a Phil Tomlins am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

764 Apologies

Councillors Sheila Davies, Jim Hughes, Lowri Jones, Lodwick Lloyd and Phil Tomlins apologised for their inability to attend the meeting.

765 Personol

Mynegodd yr Aelodau eu cydymdeimliad gyda'r Cyngorydd Aled Roberts yn dilyn marwolaeth ei fam-ying-nghyfraith.

765 Personal

Members expressed their condolences to Councillor Aled Roberts following the death of his mother-in-law.

**766 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a
gynhaliwyd ar 1af Chwefror 2022**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 1af Chwefror 2022 fel rhai cywir yn amodol ar gywiros canlynol:

**766 Minutes of the Monthly Meeting held
on 1st February 2022**

The Minutes the Meeting of the Council held on 1st February 2022 were confirmed as being a correct record, subject to amending the following;

- cofnod 763l) – cywiro enw'r tŷ i Pen Graig
- cofnod 763m) (y lle eistedd) – i gofnodi fod cais yn cael ei ddisgwyl.

- Minute 763l) - to correct the name of the house to Pen Graig
- Minute 763m) (seating area) - to record that a request was awaited.

767 Materion yn codi o'r Cofnodion

a) 752d) Tir comin yn ardal Nebo. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â darn o dir a gyfeiriwyd ato gan y Cyngorydd Lodwick Lloyd fel un a oedd yn addas ar gyfer lleoli lle chwarae. Dywedodd y Clerc ei fod wedi dod o hyd i

767 Matters arising from the Minutes

Minute 752d) Common Land in the Nebo area. A discussion ensued in respect of the piece of land which Councillor Lodwick Lloyd had referred to as being suitable for locating a playground. The Clerk stated that he had found documents

ddogfennau ynghylch darn o dir comin o'r enw Cors Caranod nad oedd ym mherchnogaeth y Cyngor. Cytunodd y Cynghorydd Dennis Morgan ddilyn hwn i fyny gyda'r Cynghorydd Lloyd er mwyn cael eglurhad ai hwn oedd y ti roedd yn cyfeirio ato.

- b) Cofnod 763j) – nodi fod y gwaith o osod arwyddion cŵn yn baeddu yn mynd yn ei flaen.

768 Y Lle Chwarae

Rhoddyd ystyriaeth i'r Adroddiad a baratawyd gan Wicksteed yn dilyn yr arolwg blynnyddol a wnaed yn ddiweddar. Amlinellwyd y trwsio a oedd ei angen a chostau'r defnyddiau yn yr Adroddiad ac y byddai rhaid cael y costau llafur o'r Cwmni. Dywedodd sawl Aelod y gallid cael gafaol ar y defnyddiau am gost rhatach ac y gallai'r *wetpour* a roddwyd i'r Cyngor gael ei ddefnyddio ar gyfer y trwsio angenrheidiol i'r arwyneb drwy lafur lleol.

PENDERFYNWYD gofyn i Wicksteed am gost y llafur ac i ddilyn i fyny'r posiblwydd o wneud y gwaith yn lleol.

769 Llain y Cyngor

PENDERFYNWYD gofyn i Dan Lewis i wneud y gwaith o ddarparu sail parhaol i 'Monty Sid'.

770 Meinciau

Rhoddyd ystyriaeth i'r polisi diwygiedig drafft a baratawyd gan y Cynghorydd Sheila Davies yn dilyn prynu'r meinciau newydd a wnaed o ddefnydd wedi'i ailgylchu gan y Cyngor a'r trefniadau ar gyfer placiau coffa.

PENDERFYNWYD cadarnhau y byddai'r Cyngor yn y dyfodol yn ystyried ceisiadau i osod plac coffa ar feinciau ei hun ar y Llain ac ar y Waun yn unig; ac yn unol â'r amodau a gytunwyd yng nghyfarfod 4ydd Ionawr h.y.

relating to a piece of common land known as Cors Caranod which was not owned by the Council. Councillor Dennis Morgan agreed to follow this up with Councillor Lloyd and clarify as to whether this was the land being referred to by him.

- b) Minute 763j) – to note that the work of fixing dog fouling signs to posts was proceeding.

768 Playground

Consideration was given to the Report prepared by Wicksteed following the annual inspection held recently. The required repairs and the costs of the materials were outlined in the Report and the labour costs would need to be obtained from the Company. Several Members indicated that the materials could be obtained at a cheaper cost and that the *wetpour* given to the Council could be utilised for the necessary repairs to the surface using local labour.

It was **RESOLVED** to obtain the labour cost from Wicksteed and to follow up the possibility of undertaking the work locally.

769 Council's Slang

It was **RESOLVED** to contact Dan Lewis to undertake the work of providing a permanent base for 'Monty Sid'.

770 Benches

Consideration was given to the draft revised policy prepared by Councillor Sheila Davies following the purchase of the new recycled benches by the Council and the arrangements for memorial plaques.

It was **RESOLVED** to confirm that, in future, the Council would only consider requests to place a memorial plaque on its own benches at the Slang and y Waun; and in accordance with the conditions agreed at the 4th January

- a) rhaid i'r plac fod o wneuthuriad dur gloyw ac yn mesur 5" X 2"
- b) rhaid i'r plac gael ei osod yn ei le gan berson cymwys ar gost yr ymgeisydd ei hun
- c) fe fydd y Cyngor yn cytuno i sawl plac gael eu gosod ar bob un o'i feinciau yn yr holl leoliadau

Meeting, i.e.

- a) the plaque must be made of stainless steel and measure 5" X 2"
- b) the plaque must be attached by a competent person and at the applicant's own expense
- c) the Council will agree to several plaques being attached to each of its benches at all locations.

771 Y Lle Eistedd

Rhoddwyd ystyriaeth i gais perchenog y Central Hotel i ddefnyddio y lle eistedd, gan gynnwys “a series of events weather permitting for barbeques where we will be raising money for the local school”.

Roedd hefyd yn dweud ei fod yn barod i “to tidy the garden up put new planters out there paint the fence and tables and put some jumbo umbrellas up for summertime”.

Amlinelloedd y Clerc fanylion y Drwydded blaenorol.

PENDERFYNWYD cytuno i'r cais ac i ganiatau'r perchenog i ddefnyddio'r lle eistedd yn unol â'r termau ac amodau blaenorol gyda'r ychwanegiadau canlynol:-

- y perchenog i fod yn gyfrifol am gael gafael ar bob caniatad angenrheidiol
- y drwydded i redeg am gyfnod cychwynnol o chwe mis yn amodol ar adolygiad
- fod yna ffi o £75 yn cael ei godi.

771 Seating Area

Consideration was given to the request of the owner of the Central Hotel for use of the seating area, including “a series of events weather permitting for barbeques where we will be raising money for the local school”.

He also states that he is “prepared to tidy the garden up put new planters out there paint the fence and tables and put some jumbo umbrellas up for summertime”.

The Clerk outlined the details of the previous licence.

It was **RESOLVED** to agree to the request and that the owner be permitted to use the seating area in accordance with the previous terms and conditions with the addition of the following:-

- the owner being responsible to obtain all necessary approvals and permissions
- the licence be for an initial period of six months and subject to review
- a fee of £75 be charged.

772 Materion Cyllidol – Talu anfonebau

PENDERFYNWYD talu'r canlynol:

Gwasg y Lolfa (Cloncan)	£400
Costau gweinyddol y Clerc -	£156.23
<i>Cyflwyn y Clerc (Ion-Chwef-Mawrth):</i>	
Denfer Morgan -	£636.48

772 Finance Matters – Payment of invoices

It was **RESOLVED** to pay the following:

Lolfa Press (Cloncan)	£400
Clerk's admin. Costs	£156.23
<i>Clerk's Salary (Jan-Feb-March):</i>	
Denfer Morgan -	£636.48

CThEM (TWE) - £159.12

HMRC (PAYE) - £159.12

773 Ceisiadau am Gymorth Ariannol
Rhoddwyd ystyriaeth i geisiadau am gymorth ariannol a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cyfraniadau canlynol:

Pwll Nofio Aberaeron a'r Cylch - £200
CFfl Llanddeiniol- £100

774 Materion Cynllunio
Rhoddwyd ystyriaeth i'r tri cais cynllunio isod a gwnaed y penderfyniadau fel a ganlyn.

a) A211168 - Land to the South of Seven Springs Lodge Park, Llanon. The development of bases for the siting of lodges, falling under the definition of static caravans, the erection of a building for plant, and the construction of ponds, with associated access, car parking, landscaping and drainage infrastructure works.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

b) A211137 - Pengarreg, Albion Fields, Llanon. Proposed extension works to existing dwelling & conversion of garage workshop to Annex/Holiday let with demolition of existing conservatory.

Penderfyniad: Gwrthwynebu'r cais gan ei fod o'r farn fod:

- yn or-ddatblygiad o'r safle; a
- nad yw darpariaeth gwyliau yn y lleoliad hwn yn gweddud i natur breswyl yr ardal ac y gallai arwain at luosogi'r math hwn o eiddo os na cheir ei reoli.

c) A211184 - Lluest y Maen Llwyd,

773 Applications for Financial Assistance
Consideration was given to applications for financial assistance and it was **RESOLVED** to approve the following contributions:

Aberaeron and District Swimming Pool - £200
Llanddeiniol YFC -£100

774 Planning Matters

Consideration was given to the following three planning application and the following decisions were taken:

a) A211168 - Land to the South of Seven Springs Lodge Park, Llanon. The development of bases for the siting of lodges, falling under the definition of static caravans, the erection of a building for plant, and the construction of ponds, with associated access, car parking, landscaping and drainage infrastructure works.

Decision: No objection

b) A211137 - Pengarreg, Albion Fields, Llanon. Proposed extension works to existing dwelling & conversion of garage workshop to Annex/Holiday let with demolition of existing conservatory.

Decision: To object to the application as it believes that:

- it is over-development of the site; and that
- holiday accommodation at this location is incompatible with the residential nature of the area and may lead to a proliferation of such type of premises if not controlled.

c) A211184 - Lluest y Maen Llwyd, Nebo, Llanon. Erection of extensions to include demolition of

DRAFFT – I’W CADARNHAU YNG NGHYFARFOD 5ED EBRILL

DRAFT – FOR CONFIRMATION AT THE 5TH APRIL MEETING

	Nebo, Llanon. Erection of extensions to include demolition of existing porch and W/C.	existing porch and W/C.
	Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.	Decision: No objection.
775	Cynllun Grant Cymunedol Wales and West / Morgan Construction Nodwyd: a) fod yna broblem gyda gosod y stand beicio ar y Waun a bod hwn yn cael ei ddilyn i fyny b) roedd yr hysbysfrwdd wedi cyrraedd ac roedd trefniadau mewn llaw i’w osod yn ei le c) gofynwyd i Morgan Construction yng ngardd y Bwthyn ar ran y Gangen WI lleol.	775 Wales and West Community Grant Scheme / Morgan Construction It was noted that: a) there was a problem with the placing of the bike stand at y Waun which was being followed up b) the noticeboard had been delivered and arrangements were in hand for it to be erected c) Morgan Construction had been requested to place the benches at the playground and at the Cottage garden.
776	Ciosg Llanon Adroddodd y Clerc fod tri trigolyn wedi cysylltu ag ef yn cynnig fod y ciosg yn cael ei ddefnyddio fel cyfnewidfa llyfrau ac nad oedd cynigion pellach wedi’u derbyn yn dilyn cyhoeddi’r mater yn y rhifyn diweddaraf o Cloncan / Chat. PENDERFYNWYD bwrw mlaen i addasu’r ciosg fel cyfnewidfa llyfrau.	776 Llanon Kiosk The Clerk reported that three residents had contacted him to date suggesting that the kiosk be used as book exchanging facility and that no further suggestions had been received following the item in the latest edition of Cloncan / Chat. It was RESOLVED to proceed to adapt the kiosk as a book exchange facility.
777	Dathliadau Jiwbili y Frenhines Rhoddwyd ystyriaeth i’r gwybodaeth a oedd wedi cyrraedd erbyn hyn ynghylch dathliadau Mis Mehefin. PENDERFYNWYD cynnal cyfarfodydd er mwyn mesur maint y gefnogaeth o fewn y gymuned ar gyfer cynnal digwyddiad o ryw fath ac i adrodd nôl i’r cyfarfod nesaf.	777 Queen’s Jubilee Celebrations Consideration was given to the information being received in respect of the June Celebrations. It was RESOLVED to hold meetings in order to gauge the degree of support within the community for holding an event of any kind and to report back to the next meeting.
778	Pecyn Cyflwyno Rhoddwyd ystyriaeth i’r pecyn cyflwyno drafft ar gyfer Aelodau newydd a baratawyd gan y Cynghorydd Sheila Davies a PHENDERFYNWYD gofyn i’r Cynghorwyr Davies, Piette, Phillips a	778 Induction Pack Consideration was given to the draft induction pack for new Members prepared by Councillor Sheila Davies and it was RESOLVED to request Councillors Davies, Piette, Phillips and Roberts

DRAFFT – I’W CADARNHAU YNG NGHYFARFOD 5ED EBRILL

DRAFT – FOR CONFIRMATION AT THE 5TH APRIL MEETING

Roberts, ynghyd â'r Clerc i orffen y ddogfen.

together with the Clerk to finalise the document.

779 Unrhyw fater cymwys arall

Gofyn i'r Clerc dwyn y materion canlynol i'r Asiantaeth Cefnydd mewn cysylltiad â'r A487:

- draen yn gwneud sŵn o flaen Whitehall, Llanon
- llifogydd ar arwyneb y ffordd ger Morfa.

779 Any Other Competent Business

To request the Clerk to report the following matters to the Trunk Road Agency in respect of the A487:

- drain rattling outside Whitehall, Llanon
- surface water flooding on the road in the Morfa area.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:45pm

The meeting concluded at 9:45pm